

Recriwtio Diogelach

Dyma drosolwg o'r camau gweithredu allweddol y mae'n rhaid i ni eu cymryd, darllenwch y ddogfen Recriwtio **Diogelach – Canllaw i Reolwyr** ar y Fewnrwyd am fanylion llawn ynglŷn â recriwtio staff yn ddiogel.

Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Pan fydd swydd yn golygu gweithio gyda phlant / oedolion diamddiffyn yn rheolaidd, bydd angen i weithwyr gael datgeliad manylach y gwasanaeth datgelu a gwahardd **cyn** iddynt gychwyn gweithio. Fel arfer mae hyn yn cymryd 4 – 6 wythnos (er gall yr amser amrywio) ac mae angen ystyried hynny wrth gynllunio amserlenni ar gyfer y broses recriwtio. Mewn amgylchiadau eithriadol gellir cwblhau asesiad risg er mwyn caniatáu gweithiwr i gychwyn yn gynt ond dylid trafod hyn gyda Cyswllt AD. Gellir dod o hyd i ganllawiau ar wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ym **Mholisi'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**.

Geirdaon

Rhaid i bob newydd-ddyfodiad i Gyngor Sir Ddinbych gael 2 eirida boddhaol gan eu cyflogwyr mwyaf diweddar **cyn** iddynt ddechrau gweithio, sy'n cynnwys y 3 flynedd ddiwethaf o gyflogaeth (5 mlynedd ar gyfer gweithwyr yn y cartref). Dim ond 1 geirda gan eu rheolwr diwethaf o fewn Cyngor Sir Ddinbych fydd ei angen ar benodiadau staff mewnol. Mewn amgylchiadau eithriadol gellid cwblhau asesiad risg er mwyn caniatáu gweithiwr i gychwyn cyn derbyn geirda ond dylid trafod hyn gyda Cyswllt AD. Gellir gweld canllawiau o fewn y **Polisi Recriwtio a Dewis**.

Hawl i Weithio yn y DU

Mae'n **ofyniad cyfreithiol** fod yn rhaid i bob gweithiwr ddangos tystiolaeth o'u Hawl i Weithio yn y DU **cyn** cychwyn gweithio. Gallai Cyngor Sir Ddinbych wynebu dirwyon o hyd at £20,000 neu wynebu camau cyfreithiol pe na fyddem yn cael y dystiolaeth hon gan weithwyr. Mae hyn yn berthnasol hefyd o ran penodiadau mewnol. **Nid oes asesiad risg** ar gyfer hyn, rhaid i ni gael y dystiolaeth. Gellir dod o hyd i ganllawiau am beth sydd angen ei ddarparu a chanllawiau defnyddiol am wirio tystiolaeth yn y dogfennau hyn:

- Rhestr Gyfeirio – Rhestr Gyfeirio Hawl i Weithio yn y DU
- Canllaw –Hawl i Weithio yn y DU Y Swyddfa Gartref
- Canllaw – canllawiau Hawl i Weithio yn y DU i Reolwyr

Cymwysterau

Cyn cychwyn gweithio, rhaid i weithwyr ddangos tystiolaeth fod ganddynt y cymwysterau hanfodol a nodwyd yn y manylion am yr unigolyn. Bydd methu darparu'r rhain yn golygu na all y gweithiwr gychwyn, neu y bydd angen cyflwyno'r disgrifiad swydd ar gyfer ei ail-werthuso a allai olygu graddfa gyflog is. **Nid oes asesiad risg** ar gyfer hyn, rhaid i ni gael y dystiolaeth. Gellir gweld canllawiau o fewn y **Polisi Recriwtio a Dewis**.